# Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


www.llyw.cymru

Arwain ar gynhyrchu ynni yn lleol

Dileu rhwystrau

Cefnogi camau gweithredu lleol

Mynediad at gyllid



Yr Adran Adnoddau Naturiol

# Rhagair



Mae'r system ynni yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid, sy'n cynnig cyfle enfawr i bobl Cymru gymryd rheolaeth dros eu hanghenion eu hunain o ran ynni. Rydym eisoes yn rhoi cymorth i leihau'r swm o drydan a ddefnyddir mewn gweithleoedd a chartrefi, cynyddu'r swm o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol, a defnyddio seilwaith grid lleol yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, er mwyn creu systemau ynni lleol sy'n gweithio i Gymru, ac sy'n gwireddu ei photensial o ran trechu tlodi, mae angen dull gweithredu arnom o ran ynni lleol ar draws y sbectrwm o gynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi ynni a lleihau'r galw. Caiff y dull hwn ei arwain hefyd gan ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel a chymunedau difreintiedig ledled Cymru. Rhaid i ni adeiladu ar y sylfaen cadarn hwn, a pharhau i sicrhau bod ein cartrefi a'n busnesau yn dod yn fwy ynni effeithlon yn gynt gan greu swyddi o safon o ran gosod a chynnal a chadw, lleihau'r galw am ynni a helpu i gyrraedd ein targedau newid yn yr hinsawdd.

Ein gweledigaeth yw gweld pob cymuned a busnes yn defnyddio trydan a gwres a gynhyrchwyd yn lleol, o amrywiaeth o osodiadau adnewyddadwy, er mwyn ateb y galw lleol a lleihau ein dibyniaeth ar gynhyrchu ynni yn ganolog. Gall y broses hon o gynhyrchu ynni yn lleol arwain at swyddi da lleol o ran gosod a chynnal a chadw'r technolegau adnewyddadwy a'r systemau a ddefnyddir i'w rheoli. Mae hefyd yn lleihau'r angen am ragor o seilwaith trawsyrru a dosbarthu, sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar gostau biliau trydan. Drwy harneisio arloesedd megis gridiau doeth, mesuryddion a storio, gallwn hefyd helpu deiliaid tai a busnesau i ddefnyddio llai o ynni, neu ei ddefnyddio ar adegau pan fo ynni yn rhatach. Er bod hyn yn galw am newid mawr yn y ffordd rydym yn meddwl am ynni, gall roi'r cyfrifoldeb dros bweru Cymru yn nwylo'r bobl sy'n byw yng Nghymru.

Rydym eisoes wedi gwneud cryn dipyn i ategu'r newid hwn, ac rwy'n benderfynol y byddwn yn cyflymu'r broses ac yn sicrhau rhagor o fuddiannau i bobl Cymru. Byddwn yn cyflymu'r newid hwn drwy'r dulliau canlynol:

- pennu cyfeiriad clir ar gyfer ynni lleol;
- dileu'r rhwystrau rhag cynhyrchu, lle bo hyn yn gywir ac yn gyfrifol;
- helpu pobl a sefydliadau i ganfod prosiectau newydd a'u datblygu;
- galluogi prosiectau ynni i gael gafael ar arian cyfalaf.

Drwy ddefnyddio ein hadnoddau naturiol yn y dulliau mwyaf effeithiol a chynaliadwy, byddwn yn creu'r systemau ynni lleol sydd eu hangen ar Gymru, yn mynd i'r afael â thlodi yn yr hirdymor ac yn sicrhau bod Cymru yn arwain y ffordd o ran lleihau allyriadau carbon – ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i arwain y newid hwn, gan weithio'n glos â chymunedau a busnesau ledled Cymru.

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

# Gweledigaeth ar gyfer ynni lleol yng Nghymru

## Sut bydd ein system ynni yn edrych yn y dyfodol?

- Caiff cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy bach a chanolig eu cysylltu o fewn cymunedau a busnesau a, thrwy wneud defnydd mwy doeth o dechnoleg a storio, byddant yn lleihau'r angen am seilwaith grid enfawr.
- Caiff gosodiadau ynni adnewyddadwy eu datblygu fel rhan o gynlluniau lleol, fydd yn rhoi budd i'r ardal leol ac y cytunir arnynt drwy drefniadau cynllunio a chaniatáu syml a chymesur.
- Mae gwaith ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn rhan o raglen sy'n darparu sector cyhoeddus di-garbon yng Nghymru.
- Mae pobl yn cynhyrchu ynni gartref ac yn y gwaith, ac mae ganddynt y wybodaeth a'r adnoddau i'w ddefnyddio'n fwy effeithiol.
- Mae tlodi tanwydd hirdymor yn lleihau gan ein bod yn byw mewn cartrefi sy'n fwy ynni effeithlon, a gall pobl a chymunedau gael gafael ar ynni a gynhyrchwyd yn lleol.

## Manteision allweddol

- Mae ein cyfeiriad clir a chadarn yn annog buddsoddi, cefnogi swyddi, cyflenwad o ynni lleol glan a manteision i bobl a busnesau lleol.
- Mae Cymru yn fwy gwydn o ran amrywiadau mewn prisiau ynni, sy'n gwarchod incwm cartrefi a busnesau.
- Mae ynni glân a chynaliadwy yn galluogi Cymru i ddiwallu ei hymrwymiadau newid yn yr hinsawdd.
- Mae cynhyrchu a defnyddio ynni yn lleol yn helpu i leihau'r angen am linellau pŵer drud a gweladwy.
- Mae sector ffyniannus yn creu ffyniant drwy swyddi da yn gosod a chynnal a chadw prosiectau cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd.
- Mae'r buddiannau a ddaw o brosiectau lleol yn rhoi cyllid uniongyrchol i gymunedau er mwyn diwallu blaenoriaethau lleol.
- Caiff pobl gyfle i fuddsoddi mewn prosiectau lleol, gan wneud elw teg.
- Mae'r gefnogaeth i dechnolegau arloesol drwy'r camau llawn risg wedi datblygu swyddi technoleg newydd yng Nghymru.
- Mae buddsoddi mewn technoleg, systemau a phrosiectau doethach yn creu adnodd y gellir ei ddefnyddio i ddarparu buddiannau ehangach eraill.
- Mae cymunedau yn meithrin balchder yn eu hardaloedd drwy harneisio buddiannau eu hadnoddau naturiol.

# Arwain ar gynhyrchu ynni yn lleol

## Llwyddiannau diweddar

- Rydym wedi cefnogi 250 o fentrau ynni cymunedol, gan arwain at 9 menter gymdeithasol newydd a 58 o brosiectau sydd wedi'u hadeiladu, neu sydd wrthi'n cael eu datblygu, ledled Cymru.
- Gosododd ein Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru dargedau effeithlonrwydd ynni gofynnol ar gyfer adeiladau newydd, ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ystyried systemau ynni amgen effeithlonrwydd uchel, gan gynnwys ffynonellau ynni adnewyddadwy lleol, cyn dechrau ar eu gwaith.
- Rydym yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar raglen Systemau a Gwres Doeth arloesol, a fydd yn cael cymorth ac arbenigedd i ddatblygu atebion i wresogi'r ardal.

## Camau gweithredu dros y 12 mis nesaf

- Byddwn yn parhau i annog Llywodraeth y DU i bennu lefelau cymorth priodol ar gyfer technolegau adnewyddadwy.
- Byddwn yn gosod llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio yng Nghymru drwy gryfhau ein fframwaith lleol drwy Fil yr Amgylchedd.
- Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru, gan amlinellu ei uchelgeisiau a gweithio ar y cyd i brysuro'r gwaith ar yr agenda hon.
- Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol, gan amlinellu'r disgwyliad y byddant yn ffurfio cynlluniau cadarnhaol ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy a charbon isel gyda pholisïau gofodol priodol yn eu cynlluniau datblygu lleol.
- Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a fydd yn hyrwyddo prosiectau adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru, gan sicrhau'r buddiannau mwyaf i Gymru a diogelu adnoddau morol.
- Yn ogystal â chamau gweithredu i gynhyrchu ynni yn lleol, bydd Strategaeth Ynni Adnewyddadwy newydd i Gymru yn nodi sut y byddwn yn helpu cartrefi, busnesau a'r sector cyhoeddus i leihau'r defnydd o ynni.

## Camau Gweithredu Pellach

- Bydd Deddf Cynllunio (Cymru) yn sefydlu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) a fydd yn helpu Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau ynglŷn â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gynnwys cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy rhwng 25 a 50MW.
- Byddwn yn symud i gyllidebu carbon, a fydd yn helpu i arwain y ddarpariaeth a blaenoriaethu camau gweithredu. Ein nod yw pennu llwybr clir yng nghyd-destun ein rhwymedigaethau sy'n bodoli eisoes yn y DU a'r UE i leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050.
- Byddwn yn datblygu rhaglen sydd wedi'i hanelu at gynhyrchu rhagor o ynni o wastraff diwydiannol a masnachol.
- Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen gwastraff bwyd trefol bresennol, byddwn yn annog y gwaith o ddatblygu seilwaith treulio anerobig pellach er mwyn trin gwastraff bwyd masnachol.
- Byddwn yn adolygu Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn ein helpu i gyflawni ymrwymiad yr UE i sicrhau adeiladau newydd sy'n defnyddio bron ddim ynni yn y sector cyhoeddus erbyn 2018 ac erbyn 2020 ar gyfer pob adeilad newydd.
- Byddwn yn datblygu ac yn hyrwyddo dangosyddion byw'n ddoeth er mwyn gwella effeithlonrwydd adnoddau a gwella'r buddiannau fydd ar gael i Gymru yn sgil arloesedd.
- Byddwn yn gweithio gyda diwydiannau amaethyddiaeth a'r diwydiannau ar y tir i wella'r cyflenwad o brosiectau ynni adnewyddadwy a darparu cadwyni cyflenwi cynaliadwy ar gyfer gosodiadau biomas lleol.

# Dileu rhwystrau

## Llwyddiannau diweddar

- Rydym wedi gweithio gyda gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu ac Ofgem i bennu camau gweithredu er mwyn gwella mynediad at rwydweithiau trydan cyfyngedig.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi symleiddio'r prosesau ar gyfer cyhoeddi trwyddedau tynnu dŵr ar gyfer prosiectau ynni dŵr, gan gyflymu'r broses, yn arbennig ar gyfer cynlluniau risg uchel, drwy leihau'r swm o dystiolaeth sydd ei hangen wrth drwyddedu ac, o ganlyniad, y gost.
- Rydym wedi cynnal cyfres o weithdai ar fodelau busnes nad ydynt yn rhai traddodiadol, er mwyn cyfleu barn Cymru i Ofgem ar eu rôl yn rheoleiddio system sy'n galluogi amrywiaeth ehangach o gyflenwyr i ffynnu.

## Camau gweithredu dros y 12 mis nesaf

- Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn parhau i gwrdd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall a chytuno ar ddileu rhwystrau i ddatblygu.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr rhwydwaith er mwyn helpu cynlluniau cynhyrchu ynni lleol i gysylltu â'r grid, a byddwn yn helpu i gefnogi arloesedd er mwyn lleihau'r angen i gysylltu.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr rhwydwaith ac Awdurdodau Lleol ar ffyrdd arloesol o leihau capasiti y gellid ei gyflwyno mewn mannau eraill.
- Byddwn yn nodi'r rhwystrau strategol i glystyrau o brosiectau cynhyrchu ynni yng Nghymru ac yn dileu'r rhwystrau hynny gyda'n gilydd. Bydd hyn yn cynnwys arloesedd, gweithio gyda phartneriaid academaidd, darparwyr technoleg a gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu.
- Byddwn yn parhau i symleiddio'r prosesau rhoi a chaniatáu, tra'n diogelu ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys y canlynol:
  - parhau i weithio gyda chyrff cadwraeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar ganiatadau yn ein parthau profi tonau a llanw a pharthau arddangos, er mwyn annog datblygwyr i brofi yn ein dyfroedd;
  - cyd-ariannu partneriaeth ymchwil i ynni morol ledled y DU er mwyn dileu risgiau a chyflymu'r broses o ganiatáu deunyddiau morol adnewyddadwy drwy fynd i'r afael â materion amgylcheddol sy'n flaenoriaeth;
  - adolygu'r cyfle i leihau'r angen am asesiadau effaith amgylcheddol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt llai;
  - adolygu'r cyfle i ymestyn hawliau datblygu a ganiateir ymhellach ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy solar annomestig yng Nghymru.
- Byddwn yn parhau i ariannu ymchwil a gwerthusiadau er mwyn rhoi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith darparu ni ein hunain a gwaith eraill ar brosiectau ynni.

## Camau Gweithredu Pellach

- Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn helpu i wella cynlluniau datblygu lleol a Chynlluniau Llesiant, gan sicrhau eu bod yn cynnwys polisïau cadarnhaol a rhagweithiol ar gyfer ynni adnewyddadwy lleol.
- Byddwn yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ni er mwyn helpu awdurdodau lleol i addasu ffordd fwy cyson o wneud asesiadau sensitifrwydd tirwedd.
- Byddwn yn datblygu rhagor o brosiectau arddangos sy'n helpu i ddileu rhwystrau gan ddefnyddio datrysiadau systemau a phrosesau arloesol a thechnoleg.

# Cefnogi camau gweithredu lleol

## Llwyddiannau diweddar

- Lansiwyd gwasanaeth Cymru Effeithlon ym mis Hydref 2014 er mwyn helpu pobl, busnesau a'r sector cyhoeddus i reoli eu defnydd o ynni a'r dull o'i gynhyrchu.
- Rydym wedi cydweithio â phartneriaid ac wedi rhoi cymorth i ddarparu rhaglen arfaethedig o brosiectau ynni cymunedol, awdurdod lleol, Byw'n Ddoeth a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Rydym wedi rhoi arbenigedd masnachol i gyrff cyhoeddus er mwyn helpu i ddarparu prosiectau cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd.
- Mae ein Cofrestr o Fuddiannau Cymunedol ac Economaidd yn nodi sut mae cymunedau lleol wedi cael cymorth gan ddatblygwyr ynni i ariannu blaenoriaethau lleol.
- Rydym wedi gweithio gyda busnesau bwyd a dod yng Nghymru ar fanteision cystadleuol y gall defnyddio ynni yn effeithlon eu cynnig.

## Camau gweithredu dros y 12 mis nesaf

- Byddwn yn parhau i fireinio ac ehangu'r gwasanaethau cynghori a chefnogi ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy lleol, gan gynnwys:
  - Cynyddu'r ystod o gefnogaeth a ddarperir gan y gwasanaeth Cymru Effeithlon, gan helpu pobl, busnesau a'r sector cyhoeddus i reoli eu defnydd o ynni a'r dull o'i gynhyrchu.
  - Lansio pecyn cymorth newydd ar gyfer cynhyrchu ynni yn lleol, gan gynnwys cymorth ar gyfer cymunedau a datblygwyr ynni masnachol ar sut i rannu perchenogaeth o brosiectau adnewyddadwy.
  - Parhau i gefnogi awdurdodau lleol i gynhyrchu ynni o wastraff bwyd a gwastraff gweddilliol.
  - Parhau i weithio gydag Ynni Cymunedol Cymru a sefydliadau eraill yn y trydydd sector i ddatblygu gallu cymunedau i fwrw ymlaen â chamau gweithredu lleol.
- Byddwn yn darparu amrywiaeth o gyngor a chanllawiau newydd a diwygiedig, a fydd yn helpu pobl i ddarparu prosiectau, gan gynnwys:
  - canllawiau arfer diwygiedig i gynllunwyr awdurdodau lleol ar ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel a sut i asesu'r potensial yn eu hardal;
  - canllawiau a hyfforddiant i gymunedau lleol ac awdurdodau cynllunio lleol ar brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol;
  - pecyn adnoddau ynni adnewyddadwy cymunedol a fydd yn helpu cymunedau i ddarparu prosiectau ynni lleol yn fwy effeithlon a chyflym. Mae ynni lleol yn dod â buddiannau ehangach i'r gymuned, megis perchenogaeth dros ffrwd incwm a all fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd;
  - canllaw gwmnïau adeiladu bach a fydd yn eu helpu i gyflawni newidiadau 2014 i'r gofynion ynni ar gyfer Cymru yn Rhan L.
- Bydd y Porth Cynllunio Morol yn helpu'r diwydiant ynni morol i nodi meysydd i'w datblygu a meysydd sydd wedi'u cyfyngu, gan annog y cynlluniau cywir yn y lleoedd cywir.

### Camau Gweithredu Pellach

- Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn cydweithio â gwasanaethau eraill i hyrwyddo'r broses o gynhyrchu ynni ar ffermydd, ac yn uno ffermwyr a pherchnogion tir â chymunedau er mwyn datblygu prosiectau cymunedol.
- Parhau i gefnogi prosiectau arddangos "Byw'n Ddoeth" a fydd yn sicrhau bod Cymru yn arwain y ffordd o ran datblygiadau newydd.
- Byddwn yn datblygu rhaglen o brosiectau buddsoddi gwyrdd yn y dyfodol drwy ddarparu systemau ariannu ac arbenigedd technegol er mwyn ariannu prosiectau a chyflymu'r broses o ddatblygu.
- Byddwn yn datblygu mecanweithiau cymorth er mwyn galluogi pobl i fuddsoddi mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

# Mynediad at gyllid

### Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

- O dan Ynni'r Fro, rydym wedi darparu grantiau i grwpiau cymunedol er mwyn dod o hyd i brosiectau ynni adnewyddadwy a'u datblygu, ac wedi sefydlu cynllun benthyciadau sy'n cylchdroi er mwyn darparu arian cyfalaf i'w hadeiladu.
- Rydym wedi gweithio gyda darparwyr cyllid i gynyddu eu dealltwriaeth o brosiectau ynni adnewyddadwy a denu buddsoddiadau i Gymru.
- Rydym wedi helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu cynigion ar gyfer cyfranddaliadau, ac mae'r cynlluniau a gefnogwyd gennym wedi codi dros filiwn o bunnoedd hyd yma.
- Rydym wedi ymrwymo £5 miliwn i gynyddu a chyflymu buddsoddiadau gwyrdd yng Nghymru, gan gynnwys prosiectau cynhyrchu ynni, arbed ynni a gwastraff. Ein hamcan yw hyrwyddo buddsoddiad sy'n lleihau allyriadau carbon, yn cwmpasu ei gostau ei hun, yn arbed arian yn y sector cyhoeddus neu'n arwain at incwm hirdymor iddo, ac yn creu buddiannau economaidd gan gynnwys cyflogaeth.

### Camau gweithredu dros y 12 mis nesaf

- Byddwn yn darparu grantiau i gynlluniau effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd awdurdod lleol eleni, a fydd yn cynnwys cymorth ychwanegol gan gyflenwyr ynni mawr drwy gynllun Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi cyfalaf mewn cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol
- Byddwn yn gwneud datganiad gweithredu arall i brysuro'r buddsoddi mewn prosiectau cynhyrchu ynni, arbed ynni a gwastraff.
- Rydym yn helpu Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr i gael gafael ar gyllid o Raglen Systemau a Gwres Doeth y Sefydliad Technolegau Ynni a darparu dau gynllun gwresogi rhanbarthol.

## Camau Gweithredu Pellach

- Byddwn yn buddsoddi arian sylweddol ychwanegol mewn prosiectau cynhyrchu ynni ac arbed ynni sy'n eiddo i Gymry o 2016/17.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo mwy na £120m i brosiectau seilwaith trin gwastraff rhanbarthol awdurdodau lleol hyd yma, a byddwn yn parhau i gefnogi'r rhaglen hon.
- Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni gwledig ac effeithlonrwydd ynni drwy'r Gronfa Datblygu Cymunedol Gwledig a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.
- Byddwn yn datblygu nifer o brosiectau arddangos Byw'n Ddoeth ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid er mwyn eu galluogi i gael mynediad at gyllid a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu darparu.

**Os hoffech fwy o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn y ddogfen hon, ewch i wefan Llywodraeth Cymru neu gysylltwch â'r tîm Ynni Adnewyddadwy.**

www.llyw.cymru/amgylcheddachefngwlad
ebost: EnergyPolicyMailbox@Wales.GSI.Gov.UK

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25669 ISBN Digidol 978-1-4734-4236-8